**Ysgol Gynradd Llanarth**

**Disgrifiad Swydd : Pennaeth Dros Dro Ysgol Llanarth (dros gyfnod mamolaeth)**

**Prif Bwrpas y Swydd**

Darparu arweinyddiaeth effeithiol, ddeinamig gyda'r gallu i ysbrydoli dysgwyr a staff Ysgol Gynradd Llanarth, a sicrhau fod dysgwyr yn cyrraedd eu potensial yn llawn.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

Ar y cyd â'r disgrifiad swydd hwn, mae'n rhaid darllen y dyletswyddau a'r amodau gwasanaeth i Benaethiaid a amlinellwyd yn rhifyn cyfredol y ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol.

1. **Cwricwlwm**

- Datblygu cwricwlwm priodol, eang a chytbwys wedi eu gwreiddio ym mhedwar diben Cwricwlwm i Gymru, ac a fydd yn cwrdd ag anghenion deallusol, corfforol, emosiynol, moesol, ysbrydol a diwylliannol pob un o'r dysgwyr, a chyfleu'r rhaglen honno gydag eglurder a brwdfrydedd i'r holl staff, y rhieni, y llywodraethwyr a'r Awdurdod Lleol.
- Datblygu a darparu cwricwlwm sy'n rhoi pwyslais ar feithrin ymdeimlad y dysgwyr o'u hunain a'u Cynefin, a dealltwriaeth o'u hunaniaeth mewn cyd-destun eang a chynhwysol.
- Hybu amgylchedd fydd yn annog dysgwyr i ddod yn ddinasyddion dwyieithog sy'n rhoi bri ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

2. **Rheoli, Adolygu a Gwerthuso**

- Sicrhau fod yna drefniadau mewn lle ar gyfer darparu cefnogaeth, dysgu proffesiynol a datblygiad digonol a phriodol ar gyfer holl aelodau'r staff, a bod y trefniadau hynny'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Cydgysylltu a gweithredu polisi'r ysgolion ar gyfer rheoli perfformiad.
- Hyrwyddo diwylliant o hunanwerthuso sy'n sicrhau fod Ysgol Gynradd Llanarth yn meddu ar systemau a phrosesau sy'n eu galluogi i werthuso ac adolygu eu perfformiad yn effeithiol, ac ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth.
- Sicrhau cydweithio effeithiol rhwng ysgolion.
- Cadw a chynnal gweinyddiaeth effeithlon i gwrdd ag anghenion yn fewnol, ac mewn perthynas â'r Awdurdod Lleol, gan gydnabod yr angen i leihau llwyth gwaith a gwneud defnydd llawn ac effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).
- Datblygu a rheoli'r lleoliad addysgol drwy grwpio'r dysgwyr, defnyddio'r staff addysgu a chynorthwyol yn briodol a dirprwyo cyfrifoldebau ychwanegol i uwch aelodau'r staff.
- Cychwyn a rheoli newid pan fo'n briodol er mwyn hyrwyddo datblygiad effeithiol yr ysgolion i sicrhau gwelliant barhaus.
- Cynnal dealltwriaeth gyfredol o'r gofynion statudol, polisïau'r Awdurdod Lleol a'r mentrau addysgol cenedlaethol er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol y Pennaeth.
- Hybu cydraddoldeb cyfle o fewn swyddi a gwasanaethau.

3. **Cynnydd Dysgwyr a Gofal Bugeiliol**

   - Darparu arweiniad effeithiol er mwyn sicrhau fod yr ysgolion yn darparu lle cyffrous i ddysgu sy'n cwrdd â'u nodau gosodedig a gofynnol a lle bydd y dysgwyr yn mwynhau llwyddiant ac yn cyrraedd eu llawn potensial.

- Parhau i ddatblygu prosesau a gweithdrefnau addas ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y dysgwyr, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer unigolion, yn unol â'r gofynion statudol.
- Sicrhau fod yr ysgolion yn cynnig amgylchfyd a chymuned diogel, ofalgar, gynhwysol a chefnogol i'r holl dysgwyr ac oedolion sy'n dysgu ac yn gweithio yno.
- Sicrhau safonau cynnydd a chyflawniad uchel drwy addysgu a dysgu o safon uchel.

**4. Disgyblaeth Dysgwyr**

- Cynnal trefn a disgyblaeth dda, ynghyd â chod ymddygiad derbyniol ymhlith y dysgwyr, yn unol â'r Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth a gymeradwywyd gan Lywodraethwyr yr ysgol a sicrhau bod y cod yn cael ei ddilyn bob amser.

**5. Perthynas**

- Datblygu cysylltiadau gweithio agos gyda'r rhieni a'r gymuned leol, ysgolion cyfagos, gan gynnwys sefydliadau uwchradd, y cyrff llywodraethol, yr Awdurdod Lleol, a'r holl asiantaethau swyddogol a gwirfoddol sydd â'u gwaith yn cyd-daro â gweithgareddau'r ddwy ysgol.
- Parhau i ddatblygu perthynas dda gydag ysgolion lleol.

**6. Adnoddau**

- Sicrhau fod cyllidebau'r ddwy ysgol a'r holl adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

**7. Adeilad a Thir**

- Gwneud trefniadau gyda Chorff Llywodraethol yr ysgolion ar gyfer sicrhau bod adeilad, cynnwys a thir y ddwy ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol, a chymryd camau angenrheidiol lle bod angen.
- Sicrhau iechyd a diogelwch staff, dysgwyr ac ymwelwyr i'r ddwy ysgol yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a gofynion yr ALl, a chymryd y camau angenrheidiol lle bo angen.

**8. Addysgu**

- Mae'r pennaeth presennol yn gyfrifol am ddysgu 3 diwrnod a hanner ac yn ddi-gyswllt am ddiwrnod a hanner. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus weithredu yn yr un modd.

**Ysgol Gynradd Llanarth**

**Manyleb Person : Pennaeth Drod Dro Ysgol Llanarth (dros gyfnod mamolaeth)**

| Categori | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | • Statws Athro Cymwysedig | |
| Profiad | • Profiad o fod yn arweinydd effeithiol.<br>• Profiad addysgu llwyddiannus a helaeth. | • Profiad o wahanol swyddi addysgu/ cyfrifoldebau. |
| Datblygiad proffesiynol | • Tystiolaeth o roi datblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud â rheolaeth ag arweinyddiaeth ysgol, dysgu ac addysgu'r cwricwlwm ar waith<br>• Profiad o arwain/ cydlynu cyfleoedd datblygu proffesiynol<br>• Y gallu i ddynodi eich anghenion dysgu eich hunan a chefnogi eraill i ddynodi eu hanghenion Dysgu. | • Profiad o weithio gydag ysgolion/sefydliadau/ asiantaethau eraill |
| Arweinyddiaeth Strategol | • Y gallu i ddiffinio a rhannu gweledigaeth o addysg gynradd gan ysbrydoli a symbylu staff, dysgwyr, rhieni a Llywodraethwyr y ddwy ysgol.<br>• Tystiolaeth o strategaethau llwyddiannus ar gyfer cynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso er mwyn gwella'n barhaus.<br>• Tystiolaeth o ddysgu oddi wrth ysgolion a chydweithwyr eraill.<br>• Y gallu i ddadansoddi data, datblygu cynlluniau strategol, gosod targedau a monitro/gwerthuso cynnydd.<br>• Gwybodaeth am yr hyn sy'n golygu ansawdd yn y ddarpariaeth addysgol, nodweddion ysgolion effeithiol a strategaethau ar gyfer codi disgwyliadau ymysg dysgwyr a staff.<br>• Tystiolaeth o fod wedi rhoi prosiect rheoli effeithiol ar waith.<br>• Dealltwriaeth o hapusrwydd a lles dysgwyr ac ymrwymiad i'w hybu a'u diogelu.<br>• Sicrhau cydweithio effeithiol rhwng ysgolion. | • Tystiolaeth o fod wedi trosi gweledigaeth ar lefel tîm neu ysgol gyfan yn reality. |
| Dysgu ac addysgu | • Tystiolaeth o feddu ar ddealltwriaeth o ofynion Cwricwlwm i Gymru a datblygiad Dysgu Sylfaen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br>• Tystiolaeth o gynllunio cwricwlwm lleol ac effeithiol.<br>• Gwybodaeth a phrofiad o ystod o strategaethau dysgu ac addysgu llwyddiannus er mwyn bodloni anghenion pob dysgwr o dan ofynion y Bil ADY.<br>• Dealltwriaeth gadarn o strategaethau asesu effeithiol a'r defnydd o asesu ar gyfer llunio'r camau dysgu nesaf.<br>• Profiad o ddatblygiad effeithiol dysgu ac addysgu.<br>• Dealltwriaeth o nodweddion amgylchedd dysgu effeithiol | |
| Arwain a Rheoli Staff | • Profiad o weithio gyda thimau o staff, o'u harwain a'u datblygu.<br>• Y gallu i ddirprwyo gwaith a chefnogi cydweithwyr wrth iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau.<br>• Profiad o reoli perfformiad a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus cydweithwyr.<br>• Dealltwriaeth o gynllunio cyllideb effeithiol ac adleoli adnoddau.<br>• Profiad o gydweithio ar draws ysgolion ac i arwain prosiectau. | • Dealltwriaeth o'r modd y mae rheoli adnoddau a chyllid yn galluogi ysgol i gyflawni ei blaenoriaethau addysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Profiad o weithio gyda llywodraethwyr i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau ysgol-gyfan.<br>• Adnabod pa adrannau o fewn yr awdurdod fydd yn medru rhoi cymorth ac arweiniad wrth reoli newid (er enghraifft swyddogion cefnogi, adnoddau dynol ac yn y blaen). | |
| Sgiliau Rhinweddau a Gallu | • Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol mewn Cymraeg a Saesneg.<br>• Bod yn agored i syniadau newydd drwy fod yn arloesol ac ysbrydoledig.<br>• Parhau i allu hyrwyddo a chryfhau cysylltiadau cymunedol.<br>• Disgwyliadau uchel o ran dysgu a chyrhaeddiad dysgwyr.<br>• Disgwyliadau uchel ohonoch chi eich hunan ac o eraill.<br>• Ymrwymiad cadarn i welliant ysgol.<br>• Y gallu i drefnu gwaith, blaenoriaethu tasgau, gwneud penderfyniadau a rheoli amser yn effeithiol.<br>• Perthynas dda gyda phlant, a diddordeb ynddynt.<br>• Ymdeimlad o ofal a diddordeb ym mhob unigolyn.<br>• Ymrwymiad cadarn i hyrwyddo yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws cymuned yr ysgol. | • Lefel uchel o sgiliau TGCh a Digidol |